Crynodeb o'r cynnig

Bydd y cynnig hwn yn gwneud yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol ("yr Athrofa") yn ddarostyngedig i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa roi sylw dyladwy i ystyriaethau cydraddoldeb penodol wrth iddi arfer ei swyddogaethau a gwneud penderfyniadau.

Mae'r cynnig yn ymwneud â diwygiad canlyniadol sy'n deillio o sefydlu'r Athrofa o dan Ran 5 Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 ("y Ddeddf").

Ymdriniwyd â phob Rhan o'r Ddeddf yn Asesiad Effaith Integredig y Ddeddf, yn cynnwys Rhan 5; a phan fo'n berthnasol, mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn cyfeirio at yr Asesiad Effaith Integredig gwreiddiol. Gan fod y cynnig yn ymwneud â diwygiad canlyniadol, nid ydym wedi casglu unrhyw dystiolaeth newydd na chynnal ychwaneg o waith ymgysylltu o ganlyniad i'r cynnig hwn. Ychwaith, ni ddisgwyliwn y bydd y cynnig yn esgor ar unrhyw effeithiau newydd neu wahanol o bwys uwchlaw'r rhai a nodir yn yr Asesiad Effaith Integredig gwreiddiol.

Cwestiynau'n ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

1. **Sut mae'r pum ffordd o weithio wedi llywio'r modd y datblygwyd ac y gweithredwyd y polisi neu'r ddeddfwriaeth o dan sylw?**

   Tymor Hir

   Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru feddwl yn y tymor hwy. Mae sefydlu'r Athrofa yn ategu rhai o'r nodau hirdymor a bennwyd yn Neddf 2015, yn cynnwys:

   - *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu;*
   - *Cymru sy'n fwy cyfartal;*
   - *Cymru o gymunedau cydlynus.*

   Mae gan yr Athrofa ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal wrth iddi arfer ei swyddogaethau (Adran 41 o'r Ddeddf). Mae'r ddyletswydd hon yn adlewyrchu pa mor bwysig yw cael sector dysgu Cymraeg sy'n diwallu'r gwahanol anghenion sydd gan bobl dros oedran ysgol gorfodol, yn cynnwys pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

   Nod y Ddeddf yw creu amodau lle gall y Gymraeg ffynnu yn y system addysg a thu hwnt. Law yn llaw â'r uchelgais o weld pob disgybl sy'n gadael addysg statudol yn gallu siarad Cymraeg yn annibynnol, bydd hyn yn arwain at ganlyniadau ieithyddol mwy cyfartal a bydd yn cynorthwyo i greu cymunedau cydlynus. Bydd yr Athrofa'n cynnig cymorth sefydlog a phriodol i addysg Gymraeg a dysgu Cymraeg y tu hwnt i'r sector addysg, yn cynnwys cynorthwyo ysgolion i drosglwyddo'r Gymraeg, a chynorthwyo pobl ifanc, oedolion a gweithleoedd ar eu siwrnai iaith.

Bydd y cynnig yn darparu fframwaith hirdymor a fydd yn cynorthwyo'r Athrofa i wneud penderfyniadau da, gan sicrhau y bydd yr effeithiau posibl a gaiff ei phenderfyniadau ar wahanol unigolion a chymunedau yn cael eu pennu a'u hystyried yn briodol fel rhan o'r broses benderfynu. Hefyd, bydd yn ofynnol i'r Athrofa fonitro'r effaith wirioneddol a gaiff ei gweithgareddau a'i phenderfyniadau.

Atal

Trwy wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o'r adeg y caiff ei sefydlu, bydd modd sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn sail i'w swyddogaethau a'i phenderfyniadau o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn cynnwys rhoi sylw dyladwy i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf 2010, ynghyd â hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig, a meithrin cydberthnasau da rhwng unigolion o'r fath.

Bydd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa ystyried y modd y bydd ei swyddogaethau'n effeithio ar bobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig. Bydd yn ategu penderfyniadau da a bydd yn helpu'r Athrofa i ddeall yn well pam na chaiff rhai grwpiau eu cynrychioli'n ddigonol ar hyn o bryd mewn darpariaeth Dysgu Cymraeg a rhoi mesurau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau a bennir. Hefyd, bydd yn ofynnol i'r Athrofa fonitro effeithiau ei gweithgareddau, er enghraifft trwy fonitro'r modd mae gwahanol grwpiau'n perfformio ar raglenni Dysgu Cymraeg. Bydd hyn yn ei galluogi i gymryd camau pe bai rhai dysgwyr â nodweddion gwarchodedig angen mwy o gymorth nag eraill.

Integreiddio

Bydd y cynnig yn golygu bod yr Athrofa'n cydweddu â chyrff cyhoeddus eraill sy'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'n cyd-fynd â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, a'r nod Llesiant mewn perthynas â chael diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Bydd Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn sicrhau y caiff ystyriaethau cydraddoldeb eu hintegreiddio yng ngweithgareddau a phenderfyniadau'r Athrofa o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn ategu egwyddorion a nodau ehangach y Ddeddf, sy'n anelu at hyrwyddo cydraddoldeb – ac yn benodol felly, cyfle cyfartal a mynediad cyfartal at addysg Gymraeg.

Bydd yr Athrofa'n allweddol o ran cynorthwyo ysgolion, dysgwyr a rhieni/gwarcheidwaid wrth i'r Ddeddf gael ei rhoi ar waith. Bydd y cynnig yn ategu dull cyson mewn perthynas â chynllunio o dan y Ddeddf ac mewn perthynas â chyflawni targedau a bennir yn y Fframwaith Cenedlaethol newydd ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg (Rhan 4 o'r Ddeddf).

Mae'r cynnig yn cysylltu â dyletswydd yr Athrofa ei hun i hyrwyddo cyfle cyfartal wrth iddi arfer ei swyddogaethau. Hefyd, mae'n cysylltu â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a'r camau penodol i alluogi mynediad a hyrwyddo cyfleoedd i geiswyr noddfa ddysgu Cymraeg.

<u>Cydweithredu</u>

Mae'r cynnig hwn yn ategu cydweithredu rhwng yr Athrofa, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn y sector addysg a fydd yn gweithio gyda'r Athrofa – yn cynnwys darparwyr Dysgu Cymraeg, Medr, awdurdodau lleol, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Comisiynydd y Gymraeg a darparwyr addysg drydyddol.

Trwy wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, bydd y cynnig yn hwyluso cynllunio ar y cyd gyda rhanddeiliaid addysg allweddol er mwyn sicrhau y bydd y Gymraeg yn gynhwysol i bawb ac y bydd pob dysgwr yn cael cyfle i ddatblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus ac annibynnol. Hefyd, bydd yn ategu ymgysylltu effeithiol gyda dysgwyr a chymunedau a bydd yn helpu i sicrhau bod llais y dysgwyr a phrofiad bywyd yn llywio polisïau a phenderfyniadau'r Athrofa.

2. Gyda phwy ydych chi wedi cydweithredu a phwy ydych chi wedi'i gynnwys wrth ddatblygu'r cynnig, ac er mwyn deall ei effeithiau, yn cynnwys ar bobl, aelwydydd, cyrff cyhoeddus, busnesau a'r trydydd sector (e.e. trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol neu trwy gynnal ymgynghoriad cyhoeddus)?

Ymgynghorodd swyddogion gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynglŷn â'r cynnig i wneud yr Athrofa'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Hefyd, ceisiodd swyddogion gytundeb i'r cynnig gan Gadeirydd newydd yr Athrofa.

Gan nad yw'r polisi hwn yn un newydd, nid yw'r swyddogion wedi ymgynghori yn ehangach ynglŷn â'r cynnig. Mae Adran 41 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa hyrwyddo cyfle cyfartal mewn dysgu Cymraeg i ddysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Hefyd, bydd y ddyletswydd newydd hon yn adeiladu ar y gwaith a wneir ar hyn o bryd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol trwy gyfrwng ei Strategaeth Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Gwrth-hiliaeth.

3. Sut mae'r polisi'n cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a chanlyniadau llesiant hirdymor?

Ar ôl sefydlu'r Athrofa, bydd ei gwaith yn ategu'r nodau hirdymor a bennir yn Neddf 2015, yn cynnwys:

- *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu;*
- *Cymru sy'n fwy cyfartal;*
- *Cymru o gymunedau cydlynus.*

Bydd sefydlu'r Athrofa'n allweddol i gyflawni nodau hirdymor y Ddeddf. Bydd yr Athrofa'n cynorthwyo ysgolion a chynllunwyr addysg i ddatblygu darpariaeth

ymatebol ac effeithiol, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc o gefndiroedd ieithyddol amrywiol.

Trwy ddarparu hyfforddiant iaith arbenigol ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol; trwy gydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu adnoddau i ategu'r arfer o ddysgu ac addysgu Cymraeg; a thrwy weithredu fel 'siop un stop' ar gyfer ategu pob agwedd ar ddysgu Cymraeg, bydd yr Athrofa'n helpu i gynnal neu wella cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith. Bydd y cynnig hwn yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hintegreiddio yng ngwaith yr Athrofa, gan helpu i ehangu mynediad at y Gymraeg.

4. **Beth yw'r effeithiau allweddol (cadarnhaol, negyddol, a chyfleoedd) ar draws pob un o'r saith nod llesiant?**

- ***Cymru lewyrchus:*** *Dim effaith uniongyrchol*
- ***Cymru gydnerth:*** *Dim effaith uniongyrchol*
- ***Cymru iachach:*** *Dim effaith uniongyrchol*
- ***Cymru sy'n fwy cyfartal:*** *Effaith gadarnhaol, trwy ei gwneud yn ofynnol i'r Athrofa ystyried effaith bosibl ei gweithredoedd a'i phenderfyniadau ar wahanol unigolion a chymunedau.*
- ***Cymru o gymunedau cydlynus:*** *Effaith gadarnhaol, trwy sicrhau bod yr Athrofa'n ystyried effaith bosibl ei gweithredoedd ar wahanol gymunedau, gan arwain at ganlyniadau ieithyddol mwy cyfartal a chan ategu cymunedau cydlynus.*
- ***Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:*** *Effaith gadarnhaol, trwy ategu'r arfer o ystyried ystyriaethau cydraddoldeb a thrwy gynyddu nifer y bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni dysgu Cymraeg.*
- ***Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:*** *Dim effaith uniongyrchol*

5. **Pa dystiolaeth, yn cynnwys adroddiadau o dan y Ddeddf, sydd wedi llywio'r polisi, a sut bydd y dystiolaeth honno'n ategu penderfyniadau parhaus?**

Wrth gasglu tystiolaeth i ategu'r Asesiad Effaith, ymgysylltodd swyddogion ag amrediad o gydweithwyr polisi, cyfreithiol ac ymchwil yn Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae swyddogion polisi wedi cynnal / ystyried y canlynol mewn perthynas â'r effeithiau posibl:

- *Y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Integredig sy'n cyd-fynd â Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, lle cyflwynir y sail resymegol dros sefydlu'r Athrofa a'r modd y bydd yn hyrwyddo cyfle cyfartal, yn ogystal â thystiolaeth i ategu'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a'r asesiad o effaith y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.*

- *Canllawiau ar gynlluniau gweithredu gwrth-hiliaeth a chyhoeddiad am gyllid ar gyfer colegau addysg bellach gan Medr (Medr/2026/41), sy'n darparu canllawiau ar gyfer y sector addysg bellach a thempled posibl ar gyfer gwaith cynllunio'r Athrofa ei hun ar ôl iddi gael ei sefydlu.*

- *Amod: Cyfle Cyfartal a Manylion Atodol gan Medr.*

- *Ymgysylltu a thystiolaeth gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sy'n brofiadol o ran datblygu cyrsiau ac addysgu Cymraeg i oedolion nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Mae hyn yn cynnwys Cynllun Gwrth-hiliaeth y Ganolfan ei hun, ei strategaeth i gynyddu ei hymgysylltiad â phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, Adroddiadau Blynyddol ac Ystadegau Blynyddol.*

- *Ymchwil gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ymwneud â'r modd y mae awdurdodau cyhoeddus yn pennu ac yn gweithredu amcanion a chanlyniadau cydraddoldeb yng Nghymru, Lloegr a'r Alban fel rhan o'u dyletswyddau penodol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.*

Caiff cynlluniau ar gyfer cynnal adolygiad ôl-weithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 eu nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Bydd yr adolygiad ôl-weithredu'n ystyried y modd mae'r Ddeddf wedi cynyddu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ymhlith pob dysgwr yn ogystal â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Bydd data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ac Ystadegau Blynyddol a gyhoeddir gan yr Athrofa'n cael eu defnyddio i fonitro cynnydd ac ategu penderfyniadau yn y dyfodol; ynghyd ag Adroddiadau Blynyddol yr Athrofa lle nodir sut bydd wedi arfer ei swyddogaethau mewn unrhyw flwyddyn. Ymhellach, bydd arolygiadau Estyn ar ddarparwyr Dysgu Cymraeg, ynghyd ag Adroddiadau Thema Estyn, yn darparu gwybodaeth werthfawr.